

# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG

## LLYWODRAETH CYMRU

<b>Teitl y cynnig:</b>	Ymchwil i anghenion y system ysgolion yng Nghymru o ran data a gwybodaeth a'u defnydd
<b>Swyddog(ion) sy'n llenwi'r Aseiad Effaith Integredig (enw(au) ac enw'r tîm):</b>	Paul Moyle, y Gangen Gwybodaeth a Gwella Ysgolion
<b>Adran:</b>	EPS - Addysg
<b>Pennaeth yr Is-adran/yr Uwchswyddog Cyfrifol (enw):</b>	Huw Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
<b>Ysgrifennydd Cabinet/Gweinidog cyfrifol:</b>	Y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams
<b>Dyddiad dechrau:</b>	23 Tachwedd 2020

## CYNNWYS

<b>ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTRYD A PHAM?</b> .....	3
<b>ADRAN 7. CASGLIAD</b> .....	6
<b>ASESIADAU EFFAITH LLAWN</b> .....	10
<b>A. ASESIAID O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT</b> .....	10

## ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

Mae'r system ysgolion yng Nghymru yn cael ei diwygio'n sylweddol mewn ymateb i adroddiad Dyfodol Llwyddiannus 2015 ar yr adolygiad annibynnol o drefniadau cwricwlwm ac asesu, a gwaith ar ddatblygu blaenoriaethau polisi eraill Llywodraeth Cymru, megis diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol a Cymraeg 2050.

Fel conglaen ein hymdrech ar y cyd i godi safonau, bydd y cwricwlwm newydd yn dibynnu ar alinio pedwar amcan galluogi y mae'n rhaid eu cyflawni'n effeithiol er mwyn cael yr effaith drawsnewidiol yr ydym yn anelu ati, fel y nodir yn *Cenhadaeth Ein Cenedl*.

Ym mis Hydref 2020, cyhoeddwyd diweddariad i *Cenhadaeth Ein Cenedl*, gan edrych yn ôl ar sut rydym wedi symud ymlaen gyda'n gilydd yn Cenhadaeth Ein Cenedl ac amlinellu'r camau y byddwn yn eu cymryd i helpu i roi'r *Cwricwlwm i Gymru* ar waith yn effeithiol ym mis Medi 2022.

O ran Amcan Galluogi 4 (*trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd cadarn, cefnogi system hunanwella*), mae Llywodraeth Cymru yn ddiweddar wedi lansio [ymgyngoriad ar ganllawiau anstatudol gwella ysgolion](#), sy'n nodi sut y bydd y trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd newydd yn gweithio'n ymarferol.

Mae'n hanfodol bod y trefniadau newydd hyn yn cael eu hategu gan sylfaen dystiolaeth gadarn a defnydd deallus o ddata, gwybodaeth a thystiolaeth i lywio pob swyddogaeth: wrth hunanarfarnu ar gyfer gwella; atebolrwydd drwy lywodraethu effeithiol; a thryloywder i'r dinesydd ehangach, ar draws pob lleoliad addysgol ac yn rhychwantu holl asiantaethau a haenau'r system.

Ar yr adeg hon o newid sylweddol yn y system ysgolion, mae angen adolygu'r anghenion data a gwybodaeth o ran addasrwydd i'r diben ar gyfer trefniadau yng Nghymru yn y dyfodol.

### Y heriau presennol

Mae ysgolion, awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn gyfoethog o ran data, ond nid ydynt bob amser yn defnyddio'r wybodaeth hon ar hyn o bryd i ysgogi gwelliant.

Yn aml, bwriedir i'r data a ddefnyddir o dan y trefniadau presennol wasanaethu sawl diben e.e. asesu cynnydd dysgwyr unigol, prosesau hunanarfarnu, prosesau atebolrwydd a chyhoeddi mewn maes cyhoeddus fel rhan o'r dull o ymdrin ag atebolrwydd a thryloywder. Defnyddiwyd yr un mesurau hefyd ar wahanol lefelau o'r system, wedi'u hagraegu lle bo angen ar lefel awdurdod, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae hyn wedi bod yn broblem

benodol gyda mesurau perfformiad yn seiliedig ar ganlyniadau cymwysterau allanol annibynnol yng Nghyfnod Allweddol 4.

Mae ffocws anghymesur ar ddata y tu allan i'r cyd-destun, ochr yn ochr â'r pwysau i wneud y mwyaf o ganlyniadau mesur perfformiad pob ysgol, wedi arwain at rai canlyniadau anfwriadol lle nad yw budd dysgwyr unigol bob amser wedi'i roi wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau – materion fel lleihau cynigion cwricwlwm ysgolion ac effeithiau ar ddsbarthu cymorth a chynllunio gwelliant. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r data a ddefnyddir yn seiliedig ar gylch blynyddol, a all arwain at ddulliau tymor byr.

### Camau arfaethedig

Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i sefydlu sylfaen dystiolaeth ar y data a'r wybodaeth a ddefnyddir ac sydd eu hangen i gefnogi gwerthuso, gwella ac atebolrwydd effeithiol drwy'r system ysgolion, fel y nodir yn y diweddariad ym mis Hydref 2020 o *Cenhadaeth Ein Cenedl*. Bydd yr ymchwil yn ystyried sut mae gan bob rhan o'r system fynediad at y data mwyaf priodol a defnyddiol at y dibenion sydd ei angen arnynt, gan edrych ar yr hyn sydd eisoes ar gael, beth arall sydd ei angen neu a fyddai o fudd i bob swyddogaeth, a sut i'w gyrchu neu ei chael.

Mae hyn yn cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 'ecosystem' o ddata a gwybodaeth wrth wraidd y trefniadau uchod, lle mae'r data a'r wybodaeth a ddefnyddir yn gyfoethog, yn eang ac yn gytbwys i adlewyrchu'r gwahanol agweddau ar ddatblygiad pob dysgwr, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael tegwch. Diffinnir hyn gan bedwar diben y cwricwlwm newydd o ran galluogi ein plant a'n pobl ifanc i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog; cyfranwyr mentrus, creadigol; dinasyddion moesegol, gwybodus; ac unigolion iach a hyderus.

Fel hyn, a thrwy ddull yn seiliedig ar dystiolaeth y prosiect ymchwil o gefnogi'r trefniadau newydd, bydd yn cyfrannu'n fras ar draws pob un o'r saith nod llesiant, gan ganolbwyntio'n benodol ar Gymru ffyniannus, fwy cyfartal ac iachach.

Cynlluniwyd manyleb y prosiect yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r 5 ffordd o weithio - fe'i cynlluniwyd i sicrhau atal drwy nodi canlyniadau anfwriadol a welir mewn elfennau o'r system bresennol, gan sicrhau nad ydynt yn cael eu hailadrodd o fewn y trefniadau newydd. Bydd hefyd yn edrych ar amseriad data er mwyn casglu gwendidau sy'n bodoli eisoes lle mae'r rhan fwyaf o'r data a ddefnyddir yn seiliedig ar gylch blynyddol, gan arwain at ddulliau tymor byrrach mewn ymdrech i wella sgoriau dangosyddion bob blwyddyn.

Fe'i cynlluniwyd hefyd gyda chydweithredu ystyrlon mewn golwg, gan ei gwneud yn ofynnol i geisio arbenigedd a chyfranogiad drwy'r system ysgolion gyfan, gan gynnwys barn athrawon, plant, pobl ifanc, rhieni a chymunedau, a chwilio am arfer gorau rhyngwladol. Bydd hyn yn helpu i feithrin yr ymdeimlad hollbwysig hwnnw o berchnogaeth a chred yn y

trefniadau sydd eu hangen i sicrhau dull cyson a pharhaus a chymhwyso priodol ar draws y genedl a phob haen.

Mae'r ddogfen hon yn asesu effaith bwrw ymlaen â'r ymchwil, gan edrych ar ei hamcanion a dyluniad manyleb y prosiect i gyflawni'r rhain. Mae'r effeithiau mwyaf arwyddocaol yn dibynnu ar benderfyniadau a chymau dilynol a gymerwyd ar ganfyddiadau'r ymchwil - mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddatblygu system well o goladu ac yna darparu data a gwybodaeth i gefnogi gwella'r system a bydd hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil hwn. Felly, mae'r ymchwil yn ffactor sy'n galluogi effeithiau cadarnhaol llawer ehangach, a amlinellir yn fras drwy gydol y ddogfen hon, ond a gaiff eu hystyried yn fanwl unwaith y bydd canfyddiadau'r ymchwil ar gael. Bydd penderfyniadau a chymau gweithredu sy'n gysylltiedig â gweithredu canlyniadau'r ymchwil hon yn destun asesiad effaith ar wahân, ar yr adeg briodol.

## ADRAN 7. CASGLIAD

### 7.1 Sut y mae pobl y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi'u cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae'r prosiect ymchwil a'r fanyleb wedi'u cynllunio yn unol â'r 5 ffordd o weithio, gan ganolbwyntio'n gryf ar gydweithredu a chynnwys cynhwysol. Rydym wedi gofyn am fewnbwn gan grwpiau rhanddeiliaid allweddol wrth ddatblygu'r fanyleb, gan gynnwys consortia addysg rhanbarthol, Cymwysterau Cymru, Estyn, Awdurdodau Lleol ac amrywiol adrannau Llywodraeth Cymru.

Bydd yr ymchwil ei hun yn gofyn am ymgysylltu helaeth pellach â sampl eang a chynrychioliadol o randdeiliaid o bob rhan o'r system ysgolion yng Nghymru. Bydd yr union ddulliau'n cael eu pennu gan y contractwr llwyddiannus, ond gallant gynnwys, er enghraifft: cyfweiliadau, trafodaethau grŵp, astudiaethau achos ac ati, yn ddarostyngedig i gyfyngiadau Covid-19 perthnasol. Mae rhestr nad yw'n hollgynhwysfawr o randdeiliaid/grwpiau cynrychioliadol y mae'n rhaid ymgynghori â hwy wedi'i chynnwys yn y fanyleb.

Mae'n ofynnol i'r ysgolion dan sylw fod yn gynrychioliadol o Gymru o ran eu math (cynradd, uwchradd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig), sbectrwm anghenion cymorth ysgolion (h.y. o uchel i isel), cyfrwng iaith a ddefnyddir ar gyfer addysgu (Cymraeg, Saesneg, dwyieithog), math daearyddol (gwledig/trefol/arfordirol), nodweddion dysgwyr (e.e. lefelau anfantais) a mathau o lywodraethu (e.e. ysgolion ffydd / di-ffydd).

Bydd hefyd yn ofynnol i'r contractwr llwyddiannus ymgysylltu â chynrychiolwyr plant, pobl ifanc a rhieni / gwarcheidwaid yn yr ymchwil, gan ddefnyddio technegau ymgysylltu priodol. Unwaith eto, rhaid i'r rhai sy'n gysylltiedig gynrychioli amrywiaeth y bobl yng Nghymru a'r ardaloedd sydd ynddo gan gynnwys, er enghraifft, nodweddion gwarchoddedig cydraddoldeb, anghenion dysgu ychwanegol, amddifadedd ar sail ardal / cefndir economaidd-gymdeithasol ac yn ôl y math daearyddol e.e. lleoliad gwledig/trefol/arfordirol.

Bydd hyn yn helpu i feithrin yr ymdeimlad hollbwysig hwnnw o berchnogaeth a chred yn y trefniadau sydd eu hangen i sicrhau dull cyson a chymhwyso priodol ledled y wlad ac ar draws pob haen.

### 7.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Gan fod yr asesiad effaith hwn wedi'i gyfyngu i effeithiau ymgymryd â'r ymchwil a dyluniad ei fanyleb, heb weithredu pellach mae'n debygol o gael effaith niwtral yn gyffredinol, gyda rhai mân effeithiau cadarnhaol oherwydd y dull cynhwysol, cydweithredol sy'n seiliedig ar ymgysylltu helaeth o bob rhan o'r system ysgolion yng Nghymru. Rhagwelir yr effeithiau cadarnhaol mwy amlwg o gamau gweithredu yn y dyfodol ar ganfyddiadau dilynol yr

ymchwil, unwaith y byddant ar gael, ond bydd angen ystyried y rhain yn fanwl unwaith y byddant ar gael.

Mae'n bwysig cydnabod y byddai peidio ag ymgymryd ag ef yn golygu nad oes gennym y sylfaen dystiolaeth angenrheidiol i sicrhau bod y data a'r wybodaeth gyfoethog sydd eu hangen i gyflawni pob swyddogaeth yn effeithiol fel rhan o'r trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd newydd. Mae hyn yn groes i'r dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth a hyrwyddir gan Cenhadaeth Ein Cenedl a gallai fod yn rhwystr i'r rhaglen ddiwygio, yn enwedig gwerthuso dulliau o gyflwyno'r cwricwlwm newydd a'i fanteision ehangach a ragwelir i bobl a chymunedau, a'i gyflawni'n llwyddiannus.

Felly, mae'r ymchwil yn ffactor sy'n galluogi effeithiau cadarnhaol ehangach. Ei gyfraniad fydd drwy sefydlu'r sylfaen dystiolaeth ofynnol ar anghenion data a gwybodaeth pob rhan o'r system ysgolion at eu dibenion penodol: hunanarfarnu ar gyfer gwella, atebolrwydd drwy lywodraethu effeithiol; a thryloywder i ddinasyddion sydd â diddordeb yn y system ysgolion.

Yn ôl adroddiad McKinsey, [\*'How the world's most improved school systems keep getting better'\*](#), yr hyn sy'n gwneud system dda yn system wych yw hunan-arfarniad yn seiliedig ar ehangder o wybodaeth am berfformiad. Bydd ein camau gweithredu ar ganfyddiadau'r ymchwil yn y dyfodol yn helpu i ddatblygu 'ecosystem' o ddata a gwybodaeth wrth wraidd y trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd, a fydd yn cynnwys data a gwybodaeth gyfoethog, eang a chytbwys sy'n adlewyrchu tegwch y gwahanol agweddau ar ddatblygiad pob dysgwr ac sy'n cyfrannu at nodau Cymru ffyniannus, fwy cyfartal ac iachach.

Mae hyn yn hanfodol er mwyn cyflawni trefniadau'r cwricwlwm newydd yn llwyddiannus ac mae'n cefnogi blaenoriaethau polisi ehangach. Er enghraifft, bydd yr ymchwil yn ystyried pa dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r continwwm Cymraeg newydd, gan ddileu'r gwahaniaeth presennol rhwng iaith gyntaf ac ail iaith. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd ystyrion yn y Gymraeg, fel bod gan y rhai sy'n gadael yr ysgol yn y dyfodol ddealltwriaeth dda o'r iaith a sgiliau ieithyddol y gellir eu defnyddio yn y gweithle, bywyd bob dydd a thu hwnt, gan gefnogi Cymraeg 2050.

Mae'r ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid ar ddatblygu manyleb yr ymchwil wedi bod yn gadarnhaol o ran ei gyfeiriad, ei naws a'i gynnwys, gyda sylwadau wedi'u cynnwys yn y fanyleb neu i'w cynnwys yng nghamau'r prosiect ymchwil yn y dyfodol.

Dim ond un effaith negyddol bosibl y mae'r asesiad effaith hwn wedi'i nodi, sydd mewn gwirionedd yn deillio o effaith gadarnhaol y dull cydweithredol sy'n cael ei ddefnyddio. Mae hyn yn ymwneud â'r galwadau amser ar randdeiliaid, sydd yn bennaf o fewn y sector cyhoeddus, megis ysgolion, Awdurdodau Lleol, consortia addysg rhanbarthol ac ati. Rhagwelir parodrwydd cryf ymhlith rhanddeiliaid i gymryd rhan yn yr ymchwil hon, er gwaethaf y buddsoddiad amser.

### 7.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:

- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu**
- **yn osgoi, leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r ymchwil a'r fanyleb wedi'u cynllunio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy a phum ffordd o weithio, er mwyn gwneud y mwyaf o'i chyfraniad at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant.

Mae'r fanyleb yn gofyn am gydweithio ac ymwneud sylweddol â grŵp eang a chynrychioliadol o randdeiliaid o bob rhan o'r system ysgolion yng Nghymru, er mwyn sefydlu eu hanghenion data a gwybodaeth i gefnogi'r trefniadau gwerthuso, gwella ac atebolrwydd newydd, ac i nodi'r hyn sydd ar goll a ble y gellid sicrhau ei fod ar gael.

Drwy edrych hefyd ar y system bresennol a'r ffordd y defnyddir data a gwybodaeth ar hyn o bryd, gallwn nodi, ac wedyn ceisio atal, unrhyw ganlyniadau anfwriadol a welir fel rhan o'r system bresennol rhag digwydd eto. Mae hyn yn cynnwys y materion hynny a grybwyllir yn 7.2 uchod, ond hefyd unrhyw faterion ehangach a sefydlwyd drwy'r ymgysylltu arfaethedig â rhanddeiliaid, fel yr amlinellir yn 7.1.

Bydd hawliau plant yn cael eu hyrwyddo drwy'r gofyniad i ymgysylltu'n gynhwysol â phlant a phobl ifanc sy'n cynrychioli amrywiaeth pobl yng Nghymru a meysydd sydd ynddo, megis: nodweddion a warchodir gan gydraddoldebau; anghenion dysgu ychwanegol; amddifadedd ar sail ardal / cefndir economaidd-gymdeithasol; a math daearyddol e.e. lleoliad gwledig/trefol/arfordirol.

Yn yr un modd, rhaid i'r ysgolion, yr awdurdodau lleol a'r consortia addysg rhanbarthol dan sylw fod yn gynrychioliadol o Gymru o ran ffactorau fel eu math; sbectrwm anghenion cymorth ysgolion; cyfrwng iaith a ddefnyddir ar gyfer addysgu, math daearyddol; nodweddion dysgwyr; math o lywodraethu ac ati.

Rhagwelir parodrwydd cryf ymhlith rhanddeiliaid i gymryd rhan yn yr ymchwil hon, er gwaethaf y buddsoddiad amser. Disgwylir i unrhyw effaith negyddol sy'n deillio o'r buddsoddiad hwn gael ei gwrthbwyso gan fanteision cymryd rhan a chael cipio eu barn a'u harbenigedd a, thrwy gamau dilynol unwaith y bydd canfyddiadau'r ymchwil ar gael, sicrhau bod yr ystod ehangaf a chyfoethocaf bosibl o wybodaeth ar gael i ddarparwyr lywio hunanarfarnu o fewn eu cyd-destun eu hunain. Bydd hyn yn caniatáu i werthuso ddod yn fwy cyd-destunol, codi safonau, a chynorthwyo darparwyr i werthuso eu dulliau o weithredu a gwireddu'r cwricwlwm newydd.



Fodd bynnag, gan edrych yn benodol ar gynnwys ysgolion, rydym yn cydnabod y pwysau ar amser ymarferwyr ysgol ac wedi rhaglenu'r ymchwil fel bod y rhan fwyaf o'r gwaith maes yn digwydd yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn ym mlwyddyn ysgol 2020/21, er mwyn lleihau'r galw cyn belled ag y bo modd yn ystod y tymor prysurach.

#### **7.4 Sut y caiff effaith y cynnig ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

*Pa gynlluniau sydd ar waith ar gyfer adolygu a gwerthuso ar ôl gweithredu?*

Bydd cyfres o weithdai ar adegau allweddol drwy gydol yr ymchwil gyda chyflwyniadau i grŵp cynghori sy'n cynnwys partneriaid allweddol o bob rhan o'r system ysgolion, ynghyd â chyflwyniad terfynol o'r canfyddiadau. Bydd cynrychiolaeth ar y grŵp hwn yn cynnwys partneriaid sydd mewn sefyllfa dda i hyrwyddo materion fel cydraddoldeb, hawliau plant a'r Gymraeg. Y trefniadau a weithredir yn seiliedig ar gasgliadau'r prosiect ymchwil fydd yn destun gwerthusiad yn y dyfodol, gyda chysylltiad agos â chyflwyno'r cwricwlwm ehangach a diwygiadau cysylltiedig.

# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

### 1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.

Mae'r ymchwil a'i ganfyddiadau, heb weithredu pellach, yn annhebygol o gael effaith ar blant a phobl ifanc, y tu hwnt i sefydlu sylfaen dystiolaeth bwysig a sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed a'u hystyried fel rhan o elfen ymgysylltu gref yr ymchwil.

Mae'r holl effeithiau eraill yn dibynnu ar benderfyniadau a champau gweithredu dilynol ar ganfyddiadau'r ymchwil. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi ymrwymiad clir yn y diweddariad i *Cenhadaeth Ein Cenedl* i ddatblygu system well o goladu ac yna darparu data a gwybodaeth i helpu i wella'r system a bydd hyn yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil hwn. Er y bydd yr effeithiau ehangach hyn yn cael eu hystyried yn fanwl fel rhan o asesiad effaith pellach, unwaith y bydd canfyddiadau ac argymhellion yr ymchwil ar gael a phenderfyniadau'n cael eu gwneud ar eu gweithredu, cânt eu trafod yn fras yma hefyd gan fod ymgymryd â'r ymchwil hon yn ffactor galluogi i'w cyflawni.

Er enghraifft, disgwylir i weithredu canfyddiadau'r ymchwil sicrhau bod gwybodaeth berthnasol ac amserol o ansawdd uchel ar gael ar draws y system ysgolion, yn llawer ehangach na chyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr, er mwyn sicrhau gwerthuso a gwella effeithiol, atebolrwydd trwyadl a thryloywder i'r cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys data a gwybodaeth sydd eu hangen:

- ar ysgolion i ysgogi gwelliant yn eu perfformiad;
- ar gyrff llywodraethu, awdurdodau lleol ac Estyn i hwyluso atebolrwydd a chraffu democrataidd;
- ar rieni, plant a chymunedau i'w helpu i ddeall eu hysgolion, gan feithrin hyder y cyhoedd.

Yn ôl adroddiad McKinsey, [‘How the world’s most improved school systems keep getting better’](#), yr hyn sy'n gwneud system dda yn system wych yw hunanarfarniad yn seiliedig ar ehangder o wybodaeth am berfformiad.

Ein nod yw sicrhau bod yr ystod ehangaf a chyfoethocaf bosibl o wybodaeth ar gael i ddarparwyr lywio hunanarfarnu o fewn eu cyd-destun eu hunain, a chynyddu'r ystod o wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd. Bydd hyn yn caniatáu i werthuso ddod yn fwy cyd-destunol, codi safonau, a chynorthwyo darparwyr i werthuso eu dulliau o weithredu a gwireddu'r cwricwlwm newydd.

O ran plant a phobl ifanc, bydd hyn yn sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyfle bywyd teg gyda'r wybodaeth hon yn gyrru ac yn llywio hunanarfarnu ar bob haen o'r system.

Rydym wedi cynllunio'r fanyleb i sicrhau ei bod yn cymryd ymagwedd gyfannol, gydwethredol, sy'n gofyn am ymgysylltu, arbenigedd a chyfranogiad o bob rhan o'r system, gan gynnwys barn pobl ifanc a rhieni, ac edrych ar arfer gorau rhyngwladol.

Bydd yn ystyried atal – gan geisio nodi ac osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol a grëir gan elfennau o'r system bresennol. Er enghraifft, ymddygiadau a grëwyd o ganlyniad i'r pwysau i sicrhau'r sgoriau mwyaf posibl mewn mesurau perfformiad a'r rhain yn dylanwadu'n anfwriadol ar ddewisiadau ynghylch cynnig cwricwlwm rhai ysgolion (nid o reidrwydd er lles gorau'r dysgwyr), a ffocws anghymesur ar grwpiau penodol o ddysgwyr, er anfantais bosibl i eraill.

Mae hefyd yn anelu at sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor, gan fynd i'r afael â gwendidau presennol lle mae'r rhan fwyaf o'r data a ddefnyddir yn seiliedig ar gylch blynyddol, gan arwain at ddulliau tymor byrrach mewn ymdrech i wella sgoriau dangosyddion bob blwyddyn. Wrth wneud hynny, byddwn yn ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu dysgwyr a phobl ifanc y dyfodol.

## **2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.**

Mae'r ymchwil yn unig, heb weithredu pellach ar ei ganfyddiadau dilynol, yn annhebygol o gael effaith ar hawliau plant, y tu hwnt i hyrwyddo ***Erthygl 12 - Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn am beth ddylai ddigwydd, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried.***

Cyflawnir hyn drwy ymgysylltu'n gynhwysol â chynrychiolwyr plant, pobl ifanc a rhieni / gwarcheidwaid (a allai olygu bod angen cynnwys sefydliad arbenigol trydydd parti). Mae'r fanyleb yn sicrhau bod yn rhaid i'r rhai sy'n gysylltiedig gynrychioli amrywiaeth y bobl yng Nghymru a'r ardaloedd sydd ynddynt - gan gynnwys, er enghraifft, nodweddion gwarchoddedig cydraddoldeb, anghenion dysgu ychwanegol, amddifadedd ar sail ardal / cefndir economaidd-gymdeithasol ac yn ôl y math daearyddol e.e. lleoliad gwledig/trefol/arfordirol. Bydd hyn yn sicrhau bod eu hanghenion data a gwybodaeth i'w helpu i ddeall eu hysgolion yn cael eu nodi (a'u cyflawni drwy gamau gweithredu ar y canfyddiadau yn y dyfodol).

Yn yr un modd, mae'n ofynnol i'r ysgolion dan sylw fod yn gynrychioliadol o Gymru o ran eu math (cynradd, uwchradd, ysgolion pob oed, ysgolion arbennig), sbectrwm anghenion cymorth ysgolion (h.y. o uchel i isel), cyfrwng iaith a ddefnyddir ar gyfer addysgu (Cymraeg, Saesneg, dwyieithog), math daearyddol (gwledig/trefol/arfordirol), nodweddion dysgwyr (e.e. lefelau anfantais) a mathau o lywodraethu (e.e. ysgolion ffydd / nad ydynt yn ffydd).

Disgwylir i ganfyddiadau'r ymchwil fod ar gael yn hydref 2022 a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Disgwylir hyrwyddo hawliau plant ac erthyglau cysylltiedig yn ehangach o ganlyniad i gamau dilynol ar y canfyddiadau hyn, ond bydd y rhain yn destun asesiad, ymgynghoriad ac ystyriaeth bellach gan Lywodraeth Cymru.

Ni nodwyd unrhyw effeithiau negyddol.